



Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
Cylch Gorchwyl

Y Rheolwr Cyfrifol	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Dyddiad Adolygu Nesaf	Ebrill 2024;
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Ebrill 2023
Fersiwn	16.0

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hwn fydd cefnogi'r Comisiynydd, drwy adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r systemau sicrwydd a roddwyd ar waith i ddiwallu anghenion ei Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac uniondeb y systemau hyn.

Yn ymarferol, mae aelodau'r Pwyllgor yn adolygu ac yn herio'r sicrwydd a roddir gan staff y Comisiynydd a chan ei harchwilwyr mewnol ac allanol ac yn ei chynghori ar lywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol, gan roi cyngor neu arweiniad i'r Comisiynydd ar ba mor dda mae'r Comisiynydd yn cael ei chefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni rhwymedigaethau ei Swyddog Cyfrifyddu (yn enwedig o ran Adrodd Ariannol, trefniadau Llywodraethu gan gynnwys rheoli risg):

- penderfyniadau allweddol ar lywodraethu;
- sicrhau bod fframwaith rheoli risg a sicrwydd digonol ac effeithiol ar waith;
- cyflawni amcanion y sefydliad; a
- chraffu ar gynnydd y Comisiynydd yn erbyn y broses o gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u gwreiddio drwy holl waith y Comisiynydd a'r sefydliad ac mae hyn yn ymestyn i sicrhau gweithle sy'n darparu cydraddoldeb, urddas a pharch.

Recriwtio

Caiff aelodau'r pwyllgor eu recriwtio drwy broses recriwtio deg a thryloyw a fydd yn cynnwys proses ymgeisio a chyfweliad. Fel arfer, bydd y panel recriwtio yn cynnwys y Comisiynydd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau.

Mae aelodau'r pwyllgor yn cael eu talu am wyth diwrnod o waith y flwyddyn.

Aelodaeth

Bydd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys hyd at bum cynghorydd annibynnol a gwrthrychol nad ydynt yn aelodau o staff parhaol neu ar secondiad y Comisiynydd. Os yw'n briodol, yn ystod cyfnod pontio aelodau'r Pwyllgor, efallai y bydd chwe chynghorydd.

Rhaid i un aelod feddu ar wybodaeth ac arbenigedd ariannol i gydymffurfio â gofynion Trysorlys EF.

Penodir pob aelod am gyfnod o bedair blynedd. Mewn cytundeb â'r Comisiynydd, gellir ymestyn tymor aelod am hyd at bedair blynedd arall.

Bydd y Comisiynydd yn penodi Cadeirydd. Gall y Cadeirydd fod yn un o'r aelodau penodedig neu gael ei recriwtio yn ychwanegol at yr aelodau presennol. Yn absenoldeb y Comisiynydd, bydd y pwyllgor yn ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Darperir yr Ysgrifenyddiaeth gan y Cynorthwydd Gweithredol.

Cod Ymddygiad

Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn llenwi datganiad cod ymddygiad blynyddol sy'n cynnwys adran datgan buddiannau. Rhaid i aelodau hefyd ddarparu diweddariad ysgrifenedig ar unrhyw newidiadau i'r datganiad o fuddiant wrth iddynt godi.

Mae Cod Ymddygiad y Comisiynydd yn ymgorffori [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Pwyllgor Nolan](#).

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Ar ddechrau pob cyfarfod, gofynnir i aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ac unrhyw waith a/neu gyngor ychwanegol a ddarperir i'r Comisiynydd.

Dylai pob aelod o'r Pwyllgor fynd ati'n rhagweithiol i ddatgan unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau sy'n deillio o waith y Comisiynydd. Bydd y Cadeirydd wedyn yn penderfynu ar gamau gweithredu priodol gyda'r aelod. Er enghraifft, efallai y gofynnir i'r aelod adael y cyfarfod tra bydd eitem benodol ar yr agenda yn cael ei thrafod.

Adrodd

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd sy'n cynnwys adroddiad ar drefniadau llywodraethu, gan gynnwys rheolaeth fewnol. Cytunir ar yr Adroddiad Blynyddol gydag aelodau'r Pwyllgor a'i amseru i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu; bydd yr adroddiad yn crynhoi casgliadau'r flwyddyn.

Rôl a Chyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiynydd ar y canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y polisiau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys proses adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r Swyddog Cyfrifyddu at yr Archwilydd Cyffredinol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol; digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwilwyr allanol;
- sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd;
- yr adolygiad blynyddol o berfformiad ac effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol ac Allanol;
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol; a
- pholisiau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig fel caffael gwasanaethau archwilio mewnol ychwanegol.

Gall y Pwyllgor ymchwilio i unrhyw fater sy'n rhan o'i Gylch Gorchwyl a chael mynediad at unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chyflogai neu wybodaeth gysylltiedig wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Gall y Comisiynydd hefyd ofyn i aelodau unigol o'r Pwyllgor roi cyngor ar faterion strategol a materion eraill sy'n ymwneud â'i chylch gwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r aelodau beidio â gweithredu ar ran y Comisiynydd mewn swyddogaeth weithredol.

Bydd y Cadeirydd yn cydlynu adolygiadau unigol o aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn briffio'r Comisiynydd i lywio gwelliannau. Yn ogystal â hyn, ac yn unol â gofynion Trysorlys EF, bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn flynyddol ac yn cyflwyno canlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiynydd. Ddwywaith y flwyddyn, bydd yr Archwilwyr Mewnol yn adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor ac yn adrodd ar hyn i'r Comisiynydd.

Hawliau

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Pwyllgor gaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar yr amod bod hynny o fewn cyllidebau y bydd y Comisiynydd yn cytuno arnynt.

Mynediad

Bydd gan Bennaeth yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor.

Cyfarfodydd Ffurfiol

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd alw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen neu os bydd y Comisiynydd yn gofyn amdanynt.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein neu wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar gonsensws y rhai sy'n bresennol yn y Pwyllgor.

Bydd o leiaf hanner aelodau'r Pwyllgor (gan gynnwys Cadeirydd) yn bresennol i'r cyfarfod ffurfiol gael ei ystyried yn gworwm, yn ogystal ag o leiaf dau Swyddog o Swyddfa'r Comisiynydd.

Fel arfer bydd y Comisiynydd, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Polisi, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, y Pennaeth Archwilio Mewnol, a chynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill fod yn bresennol i'w helpu gyda thrafodaethau ar unrhyw fater penodol.

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un, neu bawb, sy'n arfer mynychu'r cyfarfod ond nad ydynt yn aelodau, adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol.

Bydd adolygiad perfformiad blynyddol yn cael ei gynnal gyda phob aelod o'r Pwyllgor, a fydd yn cynnwys nodi anghenion hyfforddi'r Cadeirydd ac yn cael ei drafod gyda'r Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn cynnal yr adolygiad gyda'r Cadeirydd.

Bydd agenda'r cyfarfodydd fel arfer yn seiliedig ar flaenolwg y Pwyllgor a amlinellir yn Atodiad A. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr eitemau hyn ar yr agenda yn newid.

Cyfarfodydd Anffurfiol

Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol chwarterol, gwahoddir aelodau i fynychu hyd at bedwar cyfarfod anffurfiol y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Comisiynydd wneud defnydd pellach o arbenigedd amrywiol y Pwyllgor yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd strategol penodol neu feysydd sydd â lefel uchel o risg. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Hyfforddiant

Bydd gan holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg anghenion hyfforddi a datblygu y gallai'r Comisiynydd eu nodi, drwy arfarniadau blynyddol rhwng yr aelodau a'r Cadeirydd neu sgysiau parhaus rhwng yr aelodau a'r Cadeirydd.

Bydd y rhai sydd wedi ymuno â'r pwyllgor yn ddiweddar yn cymryd rhan mewn hyfforddiant cynefino, i'w helpu i ddeall eu rôl a'r sefydliad.

Gofynion y wybodaeth

Rhoddir papurau electronig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r aelodau chwe diwrnod gwaith cyn y cyfarfod sydd wedi'i drefnu. Ar gyfer pob cyfarfod rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor:

- (i) adroddiad cynnydd (ysgrifenedig/llafar) gan gynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;
- (ii) Adroddiadau llywodraethu chwarterol yn cynnwys:
 - adroddiad llywodraethu;
 - adroddiad iechyd y sefydliad;
 - adroddiad cyfathrebu;
 - adroddiad ariannol;
 - diweddariad seiber (llafar)
 - cerdyn sgorio cytbwys;
- (iii) y gofrestr risg strategol;
- (iv) polisiau allweddol i'w hadolygu;
- (v) adroddiad ar dreuliau'r Comisiynydd; a'r
- (vi) gofrestr rhoddion a lletygarwch.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- (i) adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor;
- (ii) Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg;
- (iii) adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi'r gwaith a wnaed (gan gymharu â'r gwaith a gynlluniwyd), materion allweddol sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol, ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio, ac unrhyw faterion adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion yr Archwiliad Mewnol;
- (iv) y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun gwaith blynyddol;
- (v) Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- (vi) ISA260 a llythyr cynrychiolaeth gan Archwilio Cymru;
- (vii) ymholiadau archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli;
- (viii) cyfrifon drafft y Comisiynydd;
- (ix) y Datganiad Llywodraethu drafft;
- (x) yr Amcangyfrif;
- (xi) naill ai'r cynllun busnes blynyddol newydd neu ddiweddariad dwywaith y flwyddyn o'r cynnydd yn erbyn y cynllun busnes;

- (xii) manylion y camau tendro unigol;
- (xiii) adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisiau cyfrifyddu;
- (xiv) adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro ar gyfer swyddogaethau archwilio;
- (xv) adolygiad o effeithiolrwydd gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol; ac
- (xvi) adolygiad o adroddiadau Archwilio Perfformiad a gynhrychwyd.

Atodiad A

Rhagolwg y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Dyddiad	Eitemau Sefydlog	Eitemau Penodol*
Ebrill	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datgan buddiannau 2. Adroddiadau Archwilio Mewnol 3. Diweddariad gan Archwilio Cymru 4. Adroddiadau llywodraethu 5. Y Gofrestr Risg Strategol 6. Treuliau'r Comisiynydd 7. Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch 	<p>Cyfarfod preifat blynyddol y Pwyllgor gydag archwilwyr mewnol ac allanol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ymholiadau archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli 2. Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn flaenorol 3. Strategaeth Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf 4. Adolygu perfformiad archwilio mewnol 5. Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio i'r Comisiynydd 6. Adolygiad o berfformiad y Pwyllgor 7. Datganiad Llywodraethu drafft 8. Perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes y flwyddyn flaenorol 9. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio 10. Adolygiad o bolisiâu allweddol: Codi pryderon Strategaeth Rheoli Risgiau (Dwywaith y flwyddyn)
Gorffennaf	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datgan buddiannau 2. Adroddiadau Archwilio Mewnol 3. Diweddariad gan Archwilio Cymru 4. Adroddiadau llywodraethu 5. Y Gofrestr Risg Strategol 6. Treuliau'r Comisiynydd 7. Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiad a Llythyr Rheoli'r Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2. Cyfrifon Blynyddol 3. Cynllun Busnes Newydd 4. Adolygiad o bolisiâu allweddol: Twyll ac Atal Gwyngalchu Arian
Hydref	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datgan buddiannau 2. Adroddiadau Archwilio Mewnol 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adolygu perfformiad archwilio allanol 2. Amcangyfrif Drafft

Dyddiad	Eitemau Sefydlog	Eitemau Penodol*
	<ul style="list-style-type: none"> 3. Diweddariad gan Archwilio Cymru 4. Adroddiadau llywodraethu 5. Y Gofrestr Risg Strategol 6. Treuliau'r Comisiynydd 7. Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch 	<ul style="list-style-type: none"> 3. Adolygiad cyntaf o berfformiad yn erbyn y cynllun busnes
Ionawr	<ul style="list-style-type: none"> 1. Datgan buddiannau 2. Adroddiadau Archwilio Mewnol 3. Diweddariad gan Archwilio Cymru 4. Adroddiadau llywodraethu 5. Y Gofrestr Risg Strategol 6. Treuliau'r Comisiynydd 7. Cofrestr Anrhegion a Lletygarwch 	<ul style="list-style-type: none"> 1. Strategaeth Archwiliad Allanol ar gyfer y flwyddyn nesaf 2. Adolygiad o bolisiau allweddol: Strategaeth Rheoli Risgiau (Dwywaith y flwyddyn)

*Mae'n bosibl y bydd trefn ac amlder cyflwyno'r papurau hyn i'r Pwyllgor yn newid.